Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig Dirwyn i Ben

GBLLP3

Gorffennaf 2009

Fersiwn 11

BERR

Yr Adran Busnes
Menter a Diwygio Rheoleiddio

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp clywedol. Am fanylion pellach gweler ein gwefan – www.companieshouse.co.uk neu e-bostiwch ein Hadran Ymholiadau ar enquries@companieshouse.gov.uk neu ffoniwch ein Canolfan Gysylltu ar 0303 1234 500.

Rhaid bod yn ymwybodol o'r canlynol wrth ddarllen y nodiadau canllaw hyn:

Mae rhai (ond nid y cyfan) o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 wedi dod i rym. Gan hynny, mae rhai o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 1985 yn dal yn berthnasol. Rydym wedi ceisio gwneud yn glir drwy'r holl nodiadau hyn, gymaint â phosib, pa Ddeddf sy'n berthnasol. Os hoffech chi wybod pa ddarpariaethau yn y Deddfau priodol sydd mewn grym, galwch heibio i'n gwefan www.companieshouse.gov.uk Mae dolen ar ein gwefan hefyd i wefan BERR (Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio) www.berr.gov.uk/bbf/co-act-2006, lle gallwch chi weld rhagor o wybodaeth. Mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf newydd yn amodol ar drefniadau trosiannol. Cyhyd â phosib, eglurwn hyn yn y canllaw hwn a rhown fanylion ar ein gwefan

Mae un cam terfynol yng ngweithrediad Deddf Cwmnïau 2006 a drefnwyd ar gyfer Hydref 2009. Byddwn yn diweddaru unrhyw nodiadau canllaw a effeithir gan y gweithrediadau hynny ar y pryd. Efallai yr hoffech chi gadw golwg ar ein gwefan hefyd lle byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth wrth i'r broses o weithredu barhau, er mwyn ichi gael mynediad at y newyddion diweddaraf.

Tan fis Hydref 2009, mae'r nodiadau canllaw hyn yn gymwys yn unig i gwmnïau wedi eu ffurfio ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Bwriedir wedyn i'r system ar wahân ar gyfer Gogedd Iwerddon ymdoddi i system gyfunol ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd.

Cynnwys

Cyflwyniad

1. Gwybodaeth gyffredinol am ansolfedd

2. Trefniadau gwirfoddol

3. “Yn nwylo Gweinyddydd” a “Gorchmynion gweinyddu”

Rhan 1: Achosion yn dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2005

Rhan 2: Achosion yn dechrau cyn 1 Hydref 2005

4. Derbynwyr

5. Ymddatod gwirfoddol

6. Ymddatod gorfodol

7. Dileu o’r gofrestr a diddymu’n wirfoddol

8. Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi darfod

9. Adfer i’r gofrestr

10. Gwybodaeth bellach

Canllaw yn unig yw’r llyfryn hwn a dylid ei ddarllen ar y cyd â’r ddeddfwriaeth berthnasol.

Cyflwyniad

Mae’r cyhoeddiad hwn yn arweiniad i’r drefn ar gyfer dirwyn eich partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben neu ei dileu o’r gofrestr. Mae’r llyfryn yn crynhoi rhai o’r rheolau sy’n gymwys i drefniadau gwirfoddol, yn nwylo gweinyddodd a gorchmynion gweinyddu, derbynwyr, ac ymddatod yn wirfoddol ac yn orfodol. Ymdrinia hefyd â sut a pham y caiff partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig eu dileu o’r gofrestr a’u diddymu.

Mae’r canllaw hwn hefyd yn delio â sut, o dan amgylchiadau arbennig, y gellir adfer eich partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i’r gofrestr.

Cofiwch, os yw’ch partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn ystyried ymddatod neu unrhyw gamau eraill i ateb ansolfedd, y dylech chi geisio

cyngor proffesiynol priodol neu ymgynghori ag ymarferydd ansolfedd awdurdodedig.

Fe welwch chi'r gyfraith berthnasol yn Neddf Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2000, Rheolau Ansolfedd 1986 a Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2001 sy'n cymhwyso rhannau o Ddeddf Cwmnïau 1985 (fel y'i diwygiwyd ym 1989 ac wedyn) a Deddf Ansolfedd 1986 at bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig.

Pennod 1
Gwybodaeth gyffredinol am ansolfedd

1. Beth yw gweithrediadau ansolfedd?

Dyma'r camau ffurfiol a gymerir i ddelio â dyledion partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Ceir llawer math gwahanol o weithrediadau ansolfedd ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig. Ymdrinnir â phob un ohonyn nhw yn y llyfryn hwn.

2. Oes rhaid i bob partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddilyn gweithrediadau ansolfedd cyn cael ei diddymu?

Nac oes. Os oes gan y Cofrestrydd le i gredu nad yw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cynnal busnes nac yn gweithredu, gall enw'r cwmni cael ei ddileu o'r gofrestr a'i diddymu heb fynd drwy'r drefn ymddatod. Caiff partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig nad yw'n gweithredu gwneud cais i Dŷ'r Cwmnïau am i'w henw gael ei ddileu o'r gofrestr. **Nid yw'r drefn hon yn ddewis arall yn lle gweithrediadau ansolfedd ffurfiol.**

Mae rhagor o wybodaeth am ddileu o'r Gofrestr a diddymu partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig i'w chael ym mhennod 7 o'r canllaw hwn.

3. A gaiff unrhyw un oruchwylio gweithrediadau ansolfedd?

Rhaid i bob diddymydd, gweinyddydd, derbynnydd gweinyddol a goruchwylydd sydd mewn swydd ar neu wedi 29 Rhagfyr 1986 fod yn ymarferydd ansolfedd awdurdodedig.

Does dim rhaid i reolwyr derbyn na derbynwyr o dan y Ddeddf Cyfraith Eiddo fod wedi eu hawdurdodi.

Gall ymarferwyr ansolfedd gael eu hawdurdodi gan:

- Gymdeithas Siartredig y Cyfrifwyr Ardystiedig;
- Cymdeithas yr Ymarferwyr Ansolfedd;
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr;
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Iwerddon;
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban;
- Cymdeithas y Gyfraith;
- Cymdeithas Cyfraith yr Alban; neu
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio.

4. Beth sy'n digwydd i aelodau partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n ansolfent?

Mae gan y diddymydd, y derbynnydd gweinyddol, y gweinyddydd neu'r Derbynnydd Swyddogol ddyletswydd i gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol adroddiad ar ymddygiad pob aelod a oedd mewn swydd yn ystod y tair blynedd olaf y buodd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn masnachu. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol benderfynu a yw er lles y cyhoedd i geisio gorchymyn gwahardd yn erbyn aelod.

Mae'r mathau o ymddygiad y cyflwynir adroddiad arnyn nhw fynychaf yn cynnwys:

- bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn parhau i fasnachu er bod yn ansolfent;
- methu â chadw cofnodion cyfrifeg priodol;
- methu â pharatoi a ffeilio cyfrifon neu ddychwelyd ffurflenni i Dŷ'r Cwmnïau; a
- methu â chyflwyno ffurflenni i'r Goron neu dalu i'r Goron unrhyw dreth sy'n ddyledus.

Pennod 2
Trefniadau gwirfoddol

1. Beth yw trefniad gwirfoddol?

Trefniad gwirfoddol yw lle bo partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gwneud cytundeb â'i chredydwyr drwy gynnig 'cyfrandalu i fodloni ei dyled' neu 'gynllun i drefnu ei materion'. Mae hyn yn golygu trefniad, wedi ei gymeradwyo gan y llys, lle bo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi cytuno'n ffurfiol â'i chredydwyr ar delerau i glirio'i dyledion.

2. Pwy gaiff gynnig trefniad gwirfoddol?

Gall trefniad gwirfoddol gael ei gynnig gan:

- y gweinyddydd, os oes gorchymyn gweinyddu;
- y diddymydd, os yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cael ei ddirwyn i ben; neu
- y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun, o dan amgylchiadau eraill.

3. Pwy sy'n ystyried y cynnig?

Pan fydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun yn cynnig y trefniad, bydd y sawl a enwebwyd i oruchwylio ei weithredu yn cyflwyno adroddiad i'r llys, cyn pen 28 diwrnod, yn nodi a ddylid, yn ei farn ef/barn hi, alw cyfarfod o'r credydwyr. Pan fydd y gweinyddydd neu'r diddymydd yn cynnig y cytundeb, bydd y sawl a enwebwyd yn cyflwyno adroddiad yn dweud a ddylid galw cyfarfod o'r aelodau a chyfarfod o gredydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

4. Sut y cymeradwyir trefniad gwirfoddol unwaith y cân nhw ei gynnig?

Bydd y cyfarfod a elwir gan y person a enwebwyd yn penderfynu p'un a ddylid cymeradwyo'r trefniad gwirfoddol y gellir, o dan rai cyfyngiadau, ei dderbyn wedi ei addasu neu heb ei addasu. Rhaid cytuno ar unrhyw addasiadau gyda'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Bydd y trefniadau wedyn yn cyfrwymo pob credydydd a gawsai rybudd o'r cyfarfod ac a oedd â hawl i bleidleisio. Bydd yr holl gredydwyr a gafodd rybudd o'r cyfarfod wedi eu cyfrwymo gan delerau'r trefniad.

5. Beth sy'n digwydd pan gymeradwyir y trefniad?

Os bydd cyfarfod o'r credydwyr yn cymeradwyo trefniad gwirfoddol, yna daw'r sawl a enwebwyd, neu rywun yn ei (l)le, yn oruchwylydd y trefniad.

6. Beth sydd angen ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?

Rhaid i'r goruchwylydd anfon copi o adroddiad cadeirydd y cyfarfod.

O leiaf unwaith bob 12 mis, rhaid i'r goruchwylydd anfon cyfrif o'r derbyniadau a'r taliadau, ynghyd ag adroddiad cynnydd, at bob buddiolydd, gan gynnwys y Cofrestrydd.

Wrth gwblhau'r trefniad, rhaid i'r goruchwylydd roi gwybod i'r Cofrestrydd o fewn 28 diwrnod i'r cwblhad terfynol. Os caiff y trefniad ei ohirio neu ei ddileu, rhaid rhoi gwybod i'r Cofrestrydd.

Y ffurflenni priodol yw:

Teitl y ffurflen	Rhif
Adroddiad am gyfarfod yn cymeradwyo trefniad gwirfoddol	1.1
Gorchymyn dirymu neu atal trefniad gwirfoddol	1.2
Crynodeb goruchwylydd y trefniad gwirfoddol o'r derbyniadau a'r taliadau	1.3
Hysbysiad cwblhau trefniad gwirfoddol	1.4

.

Noder: Nid yw'r ffurflenni yma ar gael o Dŷ'r Cwmnïau. Gellir eu cael gan ddogfenwyr cyfraith cwmnïau neu drwy ymweld â gwefan Yr Adran Ansolfedd ar www.insolvency.gov.uk/

Pennod 3
'Yn nwylo gweinyddydd' a 'gorchmynion gweinyddu'

Daeth y gyfraith bresennol ynglŷn â gweinyddu i rym ar 1 Hydref 2005, yn unol ag Offeryn Statudol 2005 Rhif 1989, Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Diwygiad) 2005. Am fanylion y gyfraith flaenorol, gweler Rhan 2 o'r bennod hon. O dan y drefn newydd, caiff partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei ddisgrifio fel un sydd 'yn nwylo'r gweinyddydd' – o dan yr hen drefn, dywedid bod partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn ddarostyngedig i 'orchymyn gweinyddu'. Rydym wedi defnyddio'r ddau derm hyn i ddisgrifio'r ddwy drefn wahanol.

Mae'r hyn sy'n dilyn yn amlinelliad cryno o'r broses weinyddu: nid yw'n ddatganiad cyflawn o'r gyfraith.

Rhan 1: Achosion yn dechrau ar neu wedi 1 Hydref 2005: 'Yn nwylo'r gweinyddydd'

1. Beth yw 'yn nwylo'r gweinyddydd'?

Ystyr bod yn nwylo gweinyddydd yw pan gaiff rhywun, 'y gweinyddydd', ei benodi/phenodi i reoli materion, busnes ac eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig er lles y credydwyr.

Rhaid i'r sawl a benodir fod yn ymarferydd ansolfedd a bydd iddo/iddi statws swyddog llys (p'un a gafodd ei benodi/phenodi gan y llys neu beidio).

Diben y gweinyddu yw:

- arbed y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel busnes gweithredol;
- sicrhau gwell pris am asedion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu, fel arall, sylweddu eu gwerth yn fwy ffafriol i'r credydwyr yn eu crynswth na thrwy ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben (heb iddi'n gyntaf fod yn nwylo'r gweinyddydd); neu
- o dan rai amgylchiadau, sylweddu gwerth yr eiddo er mwyn ei drosglwyddo i un neu ragor o gredydwyr rhagorfreiniol .

2. Sut bydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn mynd i ddwylo'r gweinyddydd?

Aiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ddwylo'r gweinyddydd wrth i benodiad y gweinyddydd ddod i rym. Gellir penodi gweinyddydd drwy:

- orchymyn gweinyddu wedi ei wneud gan y llys;
- deiliad arwystl nofiol; neu
- eu haelodau.

Rhaid i'r gweinyddydd gyflawni ei swyddogaethau mor fuan ac effeithiol ag sy'n rhesymol ymarferol.

3. Beth yw'r canlyniadau pan fo partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn nwylo'r gweinyddydd?

Pan aiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ddwylo'r gweinyddydd:

- bydd unrhyw ddeisebau dirwyn i ben sy'n aros dyfarniad yn cael eu gollwng o law neu eu hatal;
- bydd moratoriwm ansolfedd ac yng nghyswllt gweithrediadau cyfreithiol eraill;
- os penodwyd derbynnydd gweinyddu, rhaid iddo/iddi roi heibio i'w swydd;
- os penodwyd derbynnydd ar gyfer rhan o eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, rhaid iddo/iddi roi heibio i'w swydd (os yw'r gweinyddydd yn mynnu).

4. I bwy y mae'n rhaid rhoi gwybod bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn nwylo'r gweinyddydd?

Cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, mae'n rhaid i weinyddydd gyflwyno hysbysiad am ei benodiad/phenodiad i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun ac i bob un o'i chredydwyr, a hefyd cyhoeddi hysbysiad am ei benodiad/phenodiad yn y Gazette ac mewn papur newydd yn yr ardal lle mae prif le busnes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Beth yw'r Gazette?

Cyhoeddir y Gazette gan Wasg Ei Mawrhydi ac mae'n cynnwys amrywiol rybuddion a hysbysiadau statudol. Fe'i cyhoeddir bob dydd. Wrth sôn am y Gazette, y London Gazette a olygir yn achos partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr.

Caiff rhybuddion a drefnir gan y Cofrestrydd Cwmnïau ar gyfer Cymru a Lloegr eu cynnwys yn yr Atodiad i'r London Gazette sy'n rhestru Hysbysiadau Swyddogol ym maes y Gyfraith Gwmnïau ac a gyhoeddir ar ffurf *microfiche*. Fe welwch chi gopïau yn stafelloedd chwilio Tŷ'r Cwmnïau a restrir yng nghefn y llyfryn hwn (ac eithrio rhai'r Alban). Mae copïau hefyd gan rai o'r llyfrgelloedd cyhoeddus mwyaf. Trowch i www.gazettes-online.co.uk am wybodaeth bellach.

Rhaid i'r gweinyddydd gyflwyno hysbysiad am ei benodiad/phenodiad i'r Cofrestrydd ar Ffurflen 2.12B.

Tra bo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn nwylo'r gweinyddydd, bydd yn rhaid i bob dogfen fusnes a roir gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu ar ei rhan neu gan y gweinyddydd nodi enw'r gweinyddydd a'i fod/bod yn rheoli materion, busnes ac eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

5. Beth mae'r broses weinyddu yn ei olygu?

Bydd y gweinyddydd yn mynnu datganiad o faterion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gan bobl berthnasol (e.e. swyddog neu weithiwr i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig).

Nid hwyrach nag 8 wythnos ar ôl i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fynd i ddwylo'r gweinyddydd, mae'n rhaid i'r gweinyddydd wneud datganiad yn nodi cynigion i wireddu diben y gweinyddu neu'n esbonio pam nad oes modd ei wireddu. Gall y cynigion gynnwys trefniadau gwirfoddol neu gyfaddawd neu drefniadau gyda chredydwyr neu aelodau.

Rhaid anfon y datganiad sy'n nodi'r cynigion i:

- Dŷ'r Cwmnïau;
- at bob un o gredydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gyda gwahoddiad i ddod i gyfarfod cychwynnol o'r credydwyr os cynhelir un; ac
- at bob aelod o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, oni bai bod y gweinyddydd yn ymrwymo i roi copi'n rhad ac am ddim i unrhyw aelod o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sy'n gwneud cais ysgrifenedig am un.

Busnes cyfarfod cychwynnol y credydwyr fydd cymeradwyo (gyda neu heb addasiadau) y datganiad cynigion. Yn sgil y cyfarfod cychwynnol;

- gall y gweinyddydd gynnal cyfarfodydd pellach o'r credydwyr,
- ffurfio pwyllgor credydwyr, neu
- ddelio â materion drwy ohebiaeth â'r credydwyr.

Yn yr un modd, rhaid rhoi gwybod i'r aelodau am bob rhyw ddiwygio ar y cynigion ar ôl cyfarfod o'r credydwyr.

Rhaid rhoi gwybod am benderfyniadau a gaiff eu cymryd mewn yfarfodydd i'r credydwyr i Dŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen 2.23B ac i'r llys.

6. Pryd y daw'r gweinyddu i ben?

Mae sawl ffordd y gall y gweinyddu dod i ben.

Gall y gweinyddu dod i ben yn awtomatig ar ddiwedd tymor penodiad y gweinyddydd. Daw penodiad y gweinyddydd i ben ar ôl blwyddyn. Ond gellir estyn hyn drwy gydsyniad y credydwyr neu'r llys. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw estyn i Dŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen 2.31B.

Caiff gweinyddydd a benodwyd o dan orchymyn llys wneud cais i'r llys am roi terfyn ar y gweinyddu os cred nad oes modd gwireddu diben y gweinyddu neu na ddylsai'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod wedi mynd i ddwylo gweinyddydd, neu fod cyfarfod o'r credydwyr yn mynnu cais o'r fath. Bydd y llys yn gollwng y gorchymyn gweinyddu o law a rhaid i'r gweinyddydd roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen 2.33B.

Caiff gweinyddydd a benodwyd gan ddeiliaid arwystl nofiol neu gan aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig roi terfyn ar y gweinyddu wrth i ddiben y gweinyddu cael ei wireddu'n ddigonol. Rhaid i'r gweinyddydd ffeilio hysbysiad gyda'r llys a chyda Thŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen 2.32B.

Gall y gweinyddu dod i ben wrth i gredydydd wneud cais i'r llys yn honni cymhelliad amhriodol ar ran y sawl a benododd y gweinyddydd neu a wnaeth gais i'r llys am orchymyn gweinyddu. Rhaid i'r gweinyddydd anfon copi o'r gorchymyn gyda Ffurflen 2.33B i Dŷ'r Cwmnïau o fewn 14 diwrnod i'r gorchymyn gael ei wneud.

Gall y gweinyddu dod i ben wrth i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig symud ymlaen i ddirwyn i ben yn wirfoddol drwy gais y credydwyr. Gall hyn ddigwydd lle bo'r gweinyddydd yn credu bod pob credydydd gwarantedig yn debyg o gael ei dalu/thalu ac y gwneir dosbarthiad ymhlith y credydwyr sydd heb eu gwarantu, os oes rhai. Rhaid i'r gweinyddydd roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen 2.34B, gan anfon copïau i'r llys a phob credydydd. Yna, fe gaiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei dirwyn i ben fel pe bai penderfyniad i ddirwyn i ben yn wirfoddol wedi cael ei fabwysiadu ar y diwrnod y cofrestrwyd hysbysiad gyda Thŷ'r Cwmnïau.

Gall y gweinyddu dod i ben wrth i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig symud ymlaen i ymddiddymu. Gall hyn ddigwydd os cred y gweinyddydd nad oes gan cwmni eiddo i'w ddosbarthu ymhlith ei chredydwyr. Rhaid i'r gweinyddydd roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen 2.35B, gan anfon copïau i'r llys a phob credydydd.
Dri mis ar ôl dyddiad cofrestru'r ffurflen gyda Thŷ'r Cwmnïau. Caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei diddymu oni bai bod gorchymyn yn cael ei wneud, drwy gyflwyno cais i'r llys, am estyn neu ohirio'r cyfnod neu atal y diddymu. Rhaid rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am y gorchymyn ar Ffurflen 2.36B.

7. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?

Ar 1 Hydref 2005, yn unol ag Offeryn Statudol 2005 Rhif 1989, Rheoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig (Diwygiad) 2005, cyflwynwyd ffurflenni statudol newydd i'w ffeilio gyda Thŷ'r Cwmnïau, y rhestrir rhai ohonynt isod.

Teitl y ffurflen	**Rhif**
Hysbysu penodi gweinyddydd	2.12B
Hysbysu datganiad materion	2.16B
Hysbysu estyn cyfnod	2.18B
Datganiad o gynigion diwygiedig y gweinyddydd	2.22B
Hysbysu canlyniad cyfarfod credydwyr	2.23B
Adroddiad cynnydd y gweinyddydd	2.24B
Hysbysu bod y gweinyddu'n dod i ben yn awtomatig	2.30B
Hysbysu estyn cyfnod y gweinyddu	2.31B
Hysbysu diwedd y gweinyddu	2.32B
Hysbysu gorchymyn llys yn dod â'r gweinyddu i ben	2.33B
Hysbysu symud ymlaen o weinyddu i ymddatod yn wirfoddol drwy gais y credydwyr	2.34B
Hysbysu symud ymlaen o weinyddu i ddiddymu	2.35B
Hysbysu i'r Cofrestrydd Cwmnïau am ddyddiad y diddymu	2.36B
Hysbysu bwriad i ymddiswyddo fel gweinyddydd	2.37B
Hysbysu ymddiswyddiad y gweinyddydd	2.38B
Hysbysu bod y gweinyddydd wedi rhoi heibio i'w swydd	2.39B
Hysbysu penodi gweinyddydd newydd/ychwanegol	2.40B

Noder: Nid yw'r ffurflenni yma ar gael o Dŷ'r Cwmnïau. Gellir eu cael gan ddogfenwyr cyfraith cwmnïau neu drwy ymweld â gwefan Yr Adran Ansolfedd ar www.insolvency.gov.uk/

Rhan 2: Achosion yn dechrau cyn 1 Hydref 2005: Gorchmynion gweinyddu

Cyn 1 Hydref 2005, yr unig ffordd i fynd i ddwylo gweinyddydd oedd drwy orchymyn llys i benodi gweinyddydd. Lle bo cais am orchymyn gweinyddu wedi ei gyflwyno cyn 1 Hydref 2005, mae'r hen gyfraith yn dal yn gymwys.

1. Beth yw gorchymyn gweinyddu?

Dyma orchymyn llys a wneir i benodi gweinyddydd i reoli materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

2. Beth yw diben gorchymyn gweinyddu?

Ei ddiben, hwyrach, fydd:

- arbed y cyfan neu unrhyw ran o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel busnes gweithredol;
- gymeradwyo trefniadau gwirfoddol y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;
- ganiatáu (cytuno i) gyfaddawd neu drefniadau; neu
- sicrhau gwell pris am asedion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu, fel arall, sylweddu eu gwerth yn fwy ffafriol na thrwy ddirwyn i ben.

3. Beth yw effaith y gorchymyn?

Tra bo gorchymyn gweinyddu mewn grym, ni ellir dirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben na phenodi derbynnydd gweinyddol neu, os penodwyd un yn flaenorol, rhaid iddo/i roi'r gorau i'w swydd. Ceir cyfyngiadau ar orfodi unrhyw warant dros eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gwerthu unrhyw nwyddau a chychwyn unrhyw achos cyfreithiol. Rhoir rhagor o fanylion am dderbynwyr ym mhennod 4.

4. Pryd gall y llys wneud gorchymyn gweinyddu?

Gall y llys wneud gorchymyn gweinyddu lle bo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn methu â thalu ei dyledion, neu'n debygol o fethu â gwneud, a bod y llys o'r farn y gellid cyrraedd un o'r amcanion a amlinellwyd uchod drwy wneud gorchymyn gweinyddu.

5. Pwy gaiff wneud cais am orchymyn gweinyddu?

Gellir gwneud hyn gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun, neu un neu ragor o'i chredydwyr, gan gynnwys unrhyw gredydwyr digwyddiadol (presennol) neu ddarpar gredydwyr. Rhaid i'r gweinyddydd a benodir o dan y gorchymyn roi gwybod am y gorchymyn i Dŷ'r Cwmnïau.

6. I bwy y mae'n rhaid i weinyddydd roi gwybod am ei b/phenodiad?

Rhaid i weinyddydd:

- gyhoeddi'r gorchymyn yn y Gazette ac yn y papur newydd sydd fwyaf priodol o ran sicrhau bod y gorchymyn yn dod i sylw credydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig; ac

- anfon copi o orchymyn y llys i Dŷ'r Cwmnïau gyda Ffurflenni 2.6 a 2.7.

7. Beth yw dyletswyddau'r gweinyddydd?

Bydd y gweinyddydd yn rheoli'r holl eiddo y mae gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig hawl iddo, neu yr ymddengys fod ganddi hawl iddo. Bydd yn paratoi cynigion ar gyfer gwireddu'r diben y lluniwyd y gorchymyn gweinyddu er ei fwyn ac yn galw cyfarfod o'r credydwyr i ystyried y cynigion hynny. Os bydd mwyafrif y credydwyr yn cymeradwyo'r cynigion, bydd y gweinyddydd wedyn yn llywio materion, busnes ac eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn unol â'r cynigion.

8. Oes angen i'r gweinyddydd anfon unrhyw beth arall i Dŷ'r Cwmnïau?

Oes. Rhaid i'r gweinyddydd anfon manylion y cynigion o fewn tri mis i wneud y gorchymyn..Wedyn, bob chwe mis, rhaid i'r gweinyddydd anfon cyfrif o'r derbyniadau a'r taliadau.

9. Pa mor hir y bydd gorchymyn gweinyddu'n parhau?

Bydd yn parhau nes i'r llys ei ryddhau – mewn geiriau eraill, yn penderfynu nad oes angen y gorchymyn mwyach. Os oes gorchymyn llys i ryddhau'r gorchymyn, neu i amrywio ei delerau, rhaid i'r gweinyddydd anfon copi i Dŷ'r Cwmnïau o fewn 14 diwrnod i'r gorchymyn gael ei wneud.

10. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?

Y ffurflenni priodol yw:

Teitl y ffurflen	**Rhif**
Hysbysu gorchymyn gweinyddu	2.6
Gorchymyn gweinyddu	2.7
Crynodeb y gweinyddydd o'r derbyniadau a'r taliadau	2.15
Hysbysu rhyddhau gorchymyn gweinyddu	2.19
Hysbysu amrywio cynigion y gweinyddydd	2.20
Datganiad o gynigion y gweinyddydd -	2.21
Hysbysu canlyniad cyfarfod credydwyr	2.23

Noder: Nid yw'r ffurflenni yma ar gael o Dŷ'r Cwmnïau. Gellir eu cael gan ddogfenwyr cyfraith cwmnïau neu drwy ymweld â gwefan Yr Adran Ansolfedd ar www.insolvency.gov.uk/

Pennod 4
Derbynwyr

1. Beth yw derbynnydd?

Mae dau fath o dderbynwyr a bydd eu pwerau'n amrywio yn ôl amodau eu penodiad.

Mae derbynnydd gweinyddol yn un sy'n derbyn neu'n rheoli'r cyfan, neu o ran sylwedd y cyfan, o eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ac a benodir gan neu ar ran deiliaid unrhyw rai o ddyledebion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi eu gwarantu drwy arwystl nofiol. Bydd â'r pŵer i werthu (neu sylweddu mewn ffordd arall) yr asedion a rychwentir gan yr arwystl nofiol ac i sianelu'r elw i'r ddyled sy'n daladwy i ddeiliad yr arwystl.

Gall derbynwyr sydd heb fod yn rhai gweinyddol gael eu penodi o dan amgylchiadau eraill. Er enghraifft, o dan bwerau a gynhwysir mewn offeryn neu ddogfen sy'n creu arwystl dros eiddo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, gellir penodi derbynnydd neu reolwr nes i'r ddyled gael ei bodloni. Gellir penodi derbynwyr hefyd o dan Ddeddf Cyfraith Eiddo 1925.

2. Pwy sy'n rhoi rhybudd am benodi derbynnydd?

Y person a benoda'r derbynnydd gweinyddol, y derbynnydd neu'r rheolwr, neu a drefna'r penodiad o dan bwerau offeryn, fydd yn gyfrifol am roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau o fewn saith diwrnod i'r penodi. Rhaid hefyd i dderbynnydd gweinyddol gyhoeddi hysbysiad o'i b/phenodiad yn y Gazette ac mewn papur newydd priodol.

Wrth i'r derbynnydd gweinyddol, y derbynnydd neu'r rheolwr roi heibio i weithredu, rhaid rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau.

3. Beth mae'n rhaid i'r derbynnydd ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?

O fewn tri mis i'w b/phenodiad, rhaid i dderbynnydd gweinyddol gyflwyno adroddiad i bawb o'r canlynol:

- y Cofrestrydd;
- credydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;
- deiliaid arwystl nofiol; ac
- unrhyw ymddiriedolwyr ar ran credydwyr gwarantedig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Datganiad amgylchiadau

Dyma grynodeb o asedion, rhwymedigaethau a chredydwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Rhaid i'r derbynnydd gweinyddol hawlio datganiad o'r fath a phenderfynu pwy ddylai ei baratoi.

Rhaid i'r adroddiad egluro amgylchiadau'r penodiad a'r camau y mae'r derbynnydd gweinyddol yn eu cymryd. Rhaid i'r adroddiad gynnwys hefyd grynodeb o unrhyw 'ddatganiad amgylchiadau' a baratowyd i'r derbynnydd gan swyddogion neu weithwyr y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Rhaid i bob derbynnydd anfon at y Cofrestrydd gyfrif o'r derbyniadau a'r taliadau ar gyfer 12 mis cynta'r dderbynyddiaeth, ac:

- yn achos derbynwyr gweinyddol, bob 12 mis wedyn;
- yn achos derbynwyr a rheolwyr, bob 6 mis wedyn.

4. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?

Y ffurflenni priodol yw:

Teitl y ffurflen	**Rhif**
Hysbysu penodi derbynnydd neu reolwr	405(1)
Hysbysu rhoi heibio i weithredu'n dderbynnydd neu'n rheolwr	405(2)
Crynodeb y derbynnydd neu'r rheolwr neu'r derbynnydd gweinyddol o'r derbyniadau a'r taliadau	3.6
Adroddiad derbynnydd gweinyddol	3.10

Noder: Ac eithrio ffurflenni 405(1) a 405(2), nid yw'r ffurflenni yma ar gael o Dŷ'r Cwmnïau. Gellir eu cael gan ddogfenwyr cyfraith cwmnïau neu drwy ymweld â gwefan Yr Adran Ansolfedd ar www.insolvency.gov.uk/

Pennod 5
Ymddatod gwirfoddol

Ceir dau fath o ymddatod gwirfoddol:

- ymddatod gwirfoddol gan yr aelodau (YGA) – sy'n golygu bod yr aelodau dynodedig wedi gwneud datganiad hydaledd ffurfiol;ac
- ymddatod gwirfoddol gan y credydwyr (YGC) – sy'n golygu nad yw'r aelodau dynodedig wedi gwneud datganiad o'r fath.

1. Pryd gall y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig drefnu YGA?

Gall hyn ddigwydd lle bo'r aelodau dynodedig yn credu bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn hydal.

Rhaid i fwyafrif aelodau dynodedig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wneud datganiad hydaledd statudol yn ystod y pum wythnos cyn y dyddiad y penderfynodd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y dylai gael ei dirwyn i ben, neu ar y dyddiad ei hun ond cyn gwneud y penderfyniad – gweler cwestiwn 3.

2. Beth sydd yn y datganiad?

Bydd y datganiad statudol yn dweud bod yr aelodau dynodedig wedi ymchwilio'n llawn i faterion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a'u bod o'r farn, wedi gwneud hynny, y bydd modd iddi dalu ei dyledion yn llwyr o fewn 12 mis i ddechrau'r dirwyn i ben. Bydd y datganiad yn cynnwys rhestr o asedion a rhwymedigaethau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel yr oedden nhw ar y dyddiad ymarferol olaf cyn gwneud y datganiad.

3. Pryd y dechreua'r ymddatod mewn difrif?

Bydd yr ymddatod yn dechrau pan fo'r aelodau yn penderfynu dirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben. Bydd cytundeb y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel arfer yn nodi ym mha ffordd y gwneir penderfyniad o'r fath. Os nad oes darpariaeth felly, fe wneir y penderfyniad gan fwyafrif o'r aelodau.

4. Oes rhaid rhoi gwybod i rywun am yr ymddatod gwirfoddol?

Oes. Rhaid i hysbysiad o'r penderfyniad i ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben yn wirfoddol gael ei gyhoeddi yn y Gazette o fewn 14 diwrnod i wneud y penderfyniad. Rhaid hefyd i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig anfon copi o'r datganiad a'r penderfyniad at y Cofrestrydd o fewn 15 diwrnod i'r dyddiad y penderfynodd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig y dylai gael ei dirwyn i ben.

5. Pryd gall YGC fod yn briodol?

Gall partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig drefnu YGC pan na all dalu ei dyledion.

6. Beth sydd rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei wneud?

Bydd ei haelodau'n penderfynu na all y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig barhau mewn busnes oherwydd ei rhwymedigaethau ac mai'r peth doethaf fyddai dirwyn i ben. Bydd cytundeb y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fel arfer yn nodi ym mha ffordd y gwna'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

benderfyniad o'r fath. Os nad oes darpariaeth felly, fe wneir y penderfyniad gan fwyafrif o'r aelodau.

Rhaid i'r penderfyniad:

- gael ei hysbysu yn y Gazette cyn pen 14 diwrnod; a
- chael ei anfon at y Cofrestrydd cyn pen 15 diwrnod.

Rhaid cynnal cyfarfod o'r credydwyr yn ystod y 14 diwrnod nesaf wedi mabwysiadu'r penderfyniad i ddirwyn i ben. Rhaid anfon rhybudd o'r cyfarfod at y credydwyr o leiaf saith diwrnod cyn y cyfarfod. Hefyd, rhaid i'r aelodau dynodedig baratoi datganiad amgylchiadau i'w ystyried yn y cyfarfod, gan benodi un o'u plith i fod yn bresennol a llywyddu'r cyfarfod.

Wrth benodi'r diddymydd, rhaid i'r aelodau dynodedig roi iddo/i ddatganiad o'r amgylchiadau a chydweithredu ag ef/â hi mewn ffyrdd eraill.

7. Oes rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gyhoeddi rhybudd o'r cyfarfod?

Oes. Rhaid cyhoeddi rhybudd o'r cyfarfod yn y Gazette a dau bapur newydd yn yr ardal sy'n cynnwys prif le busnes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig

8. Beth yw prif ddyletswyddau diddymydd?

Penodir y diddymydd i ddirwyn materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben. Fe wneir hyn gan y diddymydd drwy grynhoi holl asedion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a'u dosbarthu ymhlith ei chredydwyr. Os bydd rhywbeth ar ôl, bydd y diddymydd yn ei ddosbarthu ymhlith aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

9. Oes angen i ddiddymydd roi gwybod i rywun am ei b/phenodiad?

Oes. O fewn 14 diwrnod i gael ei b/phenodi, rhaid i ddiddymydd gyhoeddi hysbysiad o'r penodiad yn y Gazette a rhoi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau. Os yw'r ymddatod yn wirfoddol, rhaid hefyd i'r diddymydd gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd yn yr ardal sy'n cynnwys prif le busnes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

10. Beth mae'n rhaid i'r diddymydd ei anfon i Dŷ'r Cwmnïau?

Rhaid i'r diddymydd anfon datganiad amgylchiadau a Ffurflen 4.20 i Dŷ'r Cwmnïau o fewn saith diwrnod i gyfarfod y credydwyr.

Rhaid hefyd i'r diddymydd anfon datganiad o'r derbyniadau a'r taliadau ar gyfer 12 mis cynta'r ymddatod. Wedi hynny, rhaid anfon datganiadau bob chwe mis nes cwblhau'r dirwyn i ben.

11. Oes modd troi YGA yn YGC?

Oes. Os penderfyna'r diddymydd na fydd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn gallu talu ei dyledion yn llawn yn ystod y cyfnod a nodir yn natganiad hydaledd statudol yr aelodau dynodedig, rhaid iddo/i alw cyfarfod o'r credydwyr y bydd yn rhaid ei gynnal cyn pen 28 diwrnod. Daw'r ymddatod yn YGC o ddyddiad y cyfarfod ymlaen.

12. Beth yw'r gofynion ar gyfer rhoi rhybudd mewn achos o'r fath?

Rhaid i'r diddymydd:

- bostio rhybudd o'r cyfarfod at bob credydydd o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod;
- cyhoeddi dyddiad y cyfarfod yn y Gazette a dau bapur newydd yn yr ardal sy'n cynnwys prif le busnes y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig; a
- pharatoi datganiad amgylchiadau i'w ystyried yn y cyfarfod. Rhaid anfon copi o'r datganiad i Dŷ'r Cwmnïau o fewn saith diwrnod i'r cyfarfod.

13. Beth sy'n digwydd pan gaiff materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig eu dirwyn i ben yn llawn?

Bydd y diddymydd yn cyflwyno cyfrif i gyfarfodydd terfynol credydwyr ac aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Rhaid iddo/i roi gwybod am y cyfarfodydd yn y Gazette o leiaf fis ymlaen llaw.

O fewn wythnos ar ôl y cyfarfod, rhaid i'r diddymydd anfon y cyfrif i Dŷ'r Cwmnïau gydag adroddiad ar y cyfarfod terfynol.

Oni wna'r llys orchymyn i ohirio diddymu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ,caiff ei diddymu tri mis wedi cofrestru'r adroddiad a'r cyfrif yn Nhŷ'r Cwmnïau.

14. Pa ffurflenni y dylid eu defnyddio?

Y ffurflenni priodol yw:

Teitl y ffurflen	Rhif
Hysbysu penodi diddymydd o dan drefn dirwyn i ben yn wirfoddol (aelodau neu gredydwyr)	600
Datganiad amgylchiadau wrth drosi o drefn ymddatod gwirfoddol gan yr aelodau i ymddatod gan y credydwyr	4.18 & 4.20
Datganiad amgylchiadau o dan drefn ymddatod gwirfoddol gan	

y credydwyr	4.19 & 4.20
Datganiad y diddymydd o'r derbyniadau a'r taliadau	4.68
Datganiad hydaledd o dan drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan yr aelodau, gan ymgorffori datganiad o'r asedion a'r rhwymedigaethau	4.70
Adroddiad am y cyfarfod terfynol o dan drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan yr aelodau	4.71
Adroddiad am y cyfarfod terfynol o dan drefn dirwyn i ben yn wirfoddol gan y credydwyr	4.72

Noder: Ac eithrio Ffurflen 600, nid yw'r ffurflenni yma ar gael o Dŷ'r Cwmnïau. Gellir eu cael gan ddogfenwyr cyfraith cwmnïau neu drwy ymweld â gwefan Yr Adran Ansolfedd ar www.insolvency.gov.uk/

Pennod 6
Ymddatod gorfodol

1. Beth yw 'ymddatod gorfodol'?

Ystyr ymddatod partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn orfodol yw lle gorchmynnir ei dirwyn i ben gan y llys.

2. Pa lysoedd all orchymyn ymddatod gorfodol?

Gall yr Uchel Lys, neu lys sirol sydd â'r awdurdodaeth briodol, orchymyn i bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei dirwyn i ben. Gall hyn fod, er enghraifft, yn unol â deiseb credydydd neu gredydwyr ar y sail nad oes modd i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig dalu ei dyledion.

Ystyrir bod partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig heb allu talu ei dyledion os bydd, er enghraifft:

- ar y bartneriaeth fwy na £750 i gredydydd;
- credydydd yn cyflwyno i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gais ysgrifenedig ar y ffurf benodedig (a elwir yn hawliad statudol (Ffurflen 4.1)); a
- bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn methu â thalu, gwarantu na chytuno i fodloni'r ddyled i foddhad rhesymol y credydydd.

Ceir amgylchiadau eraill lle'r ystyrir na all y bartneriaeth ateblorwydd cyfyngedig dalu ei dyledion. Darllenwch y ddeddfwriaeth berthnasol.

Gall y llys hefyd orchymyn i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei dirwyn i ben yn unol â deiseb:

- y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei hun;
- un neu ragor o aelodau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio;
- yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (gynt, y Bwrdd Gwarannoedd a Buddsoddi); neu
- y Derbynnydd Swyddogol.

3. Oes rhaid cyhoeddi'r ddeiseb?

Oni chyfarwyddir trefniadau eraill gan y llys, rhaid i'r ddeiseb gael ei chyhoeddi yn y Gazette.

4. Beth sy'n ymddangos ar gofnod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn Nhŷ'r Cwmnïau?

Os bydd y ddeiseb yn llwyddiannus, rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig anfon y gorchymyn dirwyn-i-ben i Dŷ'r Cwmnïau yn syth ac fe gaiff ei roi ar gofnod cyhoeddus y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Ni chyflwynir y ddeiseb ei hun i'r Cofrestrydd, felly ni fydd yn ymddangos ar y cofnodion cyhoeddus.

5. Pwy sy'n gweithredu'n ddiddymydd pan wneir gorchymyn i ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben?

Daw'r Derbynnydd Swyddogol yn ddiddymydd pan wneir gorchymyn dirwyn-i-ben yn erbyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, oni orchmynna'r llys fel arall.

6. Beth yw dyletswyddau'r Derbynnydd Swyddogol fel diddymydd?

Mae gan y Derbynnydd Swyddogol ddyletswydd i archwilio materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ac achosion ei methiant.

Bydd hefyd yn penderfynu p'un a ddylid galw cyfarfodydd o'r credydwyr a'r cyfranwyr (sef, y bobl hynny sy'n debygol o gyfrannu at asedion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig os caiff ei dirwyn i ben) at ddibenion penodi diddymydd yn ei l(l)e.

Os penderfyna beidio â galw cyfarfod, rhaid iddo/i roi gwybod i'r credydwyr, y cyfranwyr a'r llys am ei b/phenderfyniad.

Ar y llaw arall, os penderfyna alw cyfarfod, gellir wedyn benodi diddymydd yn lle'r Derbynnydd Swyddogol. Rhaid i'r diddymydd roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am ei b/phenodiad yn syth.

Os daw swydd y diddymydd yn wag unrhyw bryd, fe ddaw'r Derbynnydd Swyddogol yn ddiddymydd tra pery'r swydd yn wag.

7. Beth sy'n digwydd pan gwblheir y dirwyn i ben?

Wrth i Dŷ'r Cwmnïau gael hysbysiad gan y diddymydd o gyfarfod terfynol y credydwyr, neu hysbysiad gan y Derbynnydd Swyddogol fod y dirwyn i ben wedi ei gwblhau, bydd yn ei gofrestru ac yn cyhoeddi iddo gael ei dderbyn yn y Gazette.

Oni chyfarwydda'r Ysgrifennydd Gwladol fel arall, caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei diddymu tri mis wedi cofrestru'r hysbysiad yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Os bydd y Derbynnydd Swyddogol, gan weithredu'n ddiddymydd, yn fodlon na fydd asedion sylweddadwy'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (sef, asedion y gellid eu gwerthu neu gael gwared â nhw i godi arian) yn diwallu treuliau'r dirwyn i ben ac nad oes angen ymchwilio ymhellach i faterion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, gall wneud cais i'r Cofrestrydd am i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei diddymu'n gynnar. Fe ddiddymir y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig dri mis wedi cofrestru'r cais yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Pennod 7
Dileu o'r gofrestr a diddymu'n wirfoddol

1. Pwy all wneud cais am i enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei ddileu o'r gofrestr?

Gall partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig nad yw'n masnachu gwneud cais i'r Cofrestrydd am gael ei dileu o'r gofrestr. Gellir gwneud hyn os nad oes angen y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig mwyach. Er enghraifft, efallai y bydd yr aelodau dynodedig gweithredol am ymddeol a bod neb arall ar gael i gymryd yr awenau o'u dwylo; neu os yw'n is-gwmni nad oes angen ei enw mwyach; neu os cafodd ei sefydlu i fanteisio ar syniad na throes yn ymarferol.

Nid yw'r drefn yn ddewis arall yn lle gweithrediadau ansolfedd ffurfiol lle bo'r rheiny'n briodol, gan fod credydwyr yn debygol o atal y dileu (gweler cwestiynau 4 a 7). Hyd yn oed lle caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei dileu a'i diddymu, gallai credydwyr ac eraill wneud cais am iddi gael ei hadfer i'r gofrestr (gweler pennod 9).

Gall partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wneud cais am i'w henw gael ei ddileu os nad yw, yn ystod y 3 mis blaenorol:

- wedi masnachu na gwneud busnes mewn ffordd arall;

- wedi newid ei henw;

- wedi cael gwared, am werth cyfatebol, ag unrhyw eiddo neu hawliau a ddaliai i'w gwerthu neu am elw fel rhan o drefn naturiol ei busnes neu ei masnach yn union cyn rhoi heibio i gynnal busnes neu fasnach (er enghraifft, ni allai partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig oedd yn gwerthu afalau fel busnes barhau i werthu afalau yn ystod y cyfnod hwnnw o dri mis, ond gallai werthu'r lori a ddefnyddid gynt i gludo'r afalau neu'r warws lle caent eu storio); neu

- wedi cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch arall, ac eithrio gweithgarwch yr oedd ei angen neu a oedd yn gyfleus er mwyn gwneud cais am ddileu o'r gofrestr, trefnu materion y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig neu fodloni gofynion statudol (er enghraifft, caiff partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig geisio cyngor proffesiynol ynglŷn â'r cais, talu costau copïo Ffurflen LLP652a, ac ati). Fodd bynnag, gall partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wneud cais am i'w henw gael ei ddileu os buodd iddi fodloni dyledion masnachu neu fusnes yn ystod y tri mis blaenorol.

Ni all partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wneud cais am i'w henw gael ei ddileu os yw'n destun, neu'n destun arfaethedig:

- i unrhyw weithrediadau ansolfedd (megis ymddatod, gan gynnwys lle cyflwynwyd deiseb na chafodd ei thrin eto); neu

- gynllun Adran 425 (sef, cyfaddawd neu drefniadau rhwng partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a'i chredydwyr).

2. Beth ddylwn i ei wneud cyn gwneud cais?

Mae'r drefn yn cynnwys darpariaeth i ddiogelu rhai y mae diddymiad y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn debygol o effeithio arnyn nhw. Os oes gan eich partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gredydwyr, fe'ch cynghorir i rybuddio pawb a restrir yng nghwestiwn 4 cyn gwneud cais, am fod modd i unrhyw un o'r rheiny wrthwynebu dileu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig o'r gofrestr. Dylid tacluso unrhyw fanion – megis cau cyfrif banc y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig – cyn gwneud cais.

Mae'n ddoeth hefyd i roi gwybod i unrhyw gorff neu barti arall a all fod â buddiant ym materion y bartneriaeth, atebolrwydd cyfyngedig fel arall fe allen nhw wrthwynebu'r cais yn nes ymlaen. Mae enghreifftiau'n cynnwys awdurdodau lleol, yn enwedig os oes ar y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig rwymedigaeth yng nghyswllt caniatâd cynllunio neu faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, cynghorau hyfforddiant a menter, ac asiantaethau'r llywodraeth.

O ddyddiad y diddymu ymlaen, bydd unrhyw asedion a ddelir gan bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a gafodd ei diddymu yn perthyn i'r Goron – gweler pennod 8, cwestiwn 5. Caiff cyfrif banc y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei rewi ac fe drosglwyddir unrhyw gredyd sydd yn y cyfrif i'r Goron.

3. Sut dylwn i wneud cais?

Dylech chi ofyn i Dŷ'r Cwmnïau am Ffurflen LLP652a.

Rhaid i'r ffurflen gael ei llofnodi a'i dyddio gan:

- ddau aelod dynodedig; neu
- y mwyafrif, os oes mwy na 2.

Rhaid ichi roi enw, cyfeiriad a rhif teleffon y person y dylai Tŷ'r Cwmnïau gysylltu ag ef/â hi ynglŷn â'r cais. Wedyn, dylech chi anfon y ffurflen a gwblhawyd, gyda'r ffi o £10, at:

Y Cofrestrydd Cwmnïau
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Maendy
Caerdydd CF14 3UZ

Gwnewch y siec yn daladwy i "Tŷ'r Cwmnïau", gan nodi rhif y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ar y cefn.

4. Pwy mae'n rhaid imi roi gwybod iddyn nhw?

O fewn saith diwrnod i anfon Ffurflen LLP652a at y Cofrestrydd, mae'n rhaid ichi roi copïau ohoni i'r canlynol:

- **credydwyr,** gan gynnwys pob credydydd digwyddiadol (presennol) a darpar gredydydd (un tebygol), megis banciau, cyflenwyr, cyn-weithwyr y mae ar y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig arian iddyn nhw, landlordiaid, tenantiaid (er enghraifft, lle mae bond i gael ei ad-dalu), gwarantwyr a hawlwyr anaf personol. Hefyd, rhaid rhoi gwybod i swyddfeydd priodol Cyllid a Thollau EM (HMRC)*, a'r Adran Gwaith a Phensiynau os ceir rhwymedigaethau dyledus, rhai digwyddiadol neu ddarpar rwymedigaethau;

- **gweithwyr;**

- **rheolwyr neu ymddiriedolwyr unrhyw gronfa bensiwn i weithwyr;** ac

- **unrhyw aelodau na lofnodwyd y ffurflen ganddyn nhw.**

Lle daw rhywun yn gredydydd wedi'r cais, rhaid anfon copi o'r ffurflen ato yntau/ati hithau cyn pen saith diwrnod i hynny ddigwydd.

Rhaid i bob partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW roi gwybod i'r swyddfa TAW berthnasol (Deddf Cyllid 1985).

5. Sut dylwn i roi gwybod i'r bobl berthnasol?

Dylid cyflwyno iddynt gopi o Ffurflen LLP625a, neu ei bostio iddynt neu ei adael yn:

- y cyfeiriad hysbys diwethaf (os unigolyn); neu
- y brif swyddfa/swyddfa gofrestredig (os cwmni neu bartneriaeth).

NODYN: I roi gwybod i gredydwyr sydd â mwy nag un man busnes, rhaid ichi anfon copïau o'r ffurflen i bob man busnes lle buodd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn cynnal trafodion yng nghyswllt y dyledion cyfredol (er enghraifft, y gangen y buodd ichi archebu nwyddau oddi wrthi neu a yrrodd anfoneb atoch), neu adael copïau yno. Fe'ch cynghorir i gadw rhyw brawf o'r cyflwyno neu'r postio.

6. Sut y cofrestrir y ffurflen?

Bydd y Cofrestrydd yn gwirio'r ffurflen ac, os bydd yn dderbyniol, fe gaiff ei rhoi ar gofnod cyhoeddus y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Anfonir nodyn cydnabod i'r cyfeiriad a ddangosir ar y ffurflen. Rhoir gwybod i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig hefyd yng nghyfeiriad ei swyddfa gofrestredig, fel y gall wrthwynebu os yw'r cais yn ffug.

7. Beth sy'n digwydd wrth i'r Cofrestrydd dderbyn cais ar Ffurflen LLP652a?

Bydd y Cofrestrydd yn cyhoeddi rhybudd yn y London Gazette yn rhoi gwybod am y bwriad i ddileu o'r gofrestr ac yn gwahodd gwrthwynebiadau. Os nag oes reswm dros wneud fel arall a bod y cais heb ei dynnu'n ôl, bydd y Cofrestrydd yn dileu enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig o'r gofrestr nid llai na thri mis wedi dyddiad y rhybudd hwnnw. Caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei diddymu wrth i'r Cofrestrydd gyhoeddi rhybudd i'r perwyl hwnnw yn y Gazette. (Adeg y dileu, anfonir llythyr at y sawl a enwyd fel cyswllt ar Ffurflen LLP625a, gan gadarnhau dyddiad arfaethedig y diddymu.)

Tramgwyddau a chosbau

Mae'n dramgwydd:

- i wneud cais pan fo'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn anghymwys i'w dileu;

- i roi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol mewn cais neu fel ateg iddo;

- i beidio ag anfon copïau o'r cais at bawb perthnasol o fewn saith diwrnod;

- i beidio â thynnu'r cais yn ôl os daw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn anghymwys.

Bydd y mwyafrif o dramgwyddau'n agored i ddirwy hyd at £5,000 o dan gollfarn ddiannod (gerbron llys ynadon) neu i ddirwy ddigyfyngiad pan roir ditiad (gerbron rheithgor). Os bydd i'r aelodau dynodedig gelu'r cais yn fwriadol rhag unrhyw fudwyr, byddan nhw'n agored nid yn unig i ddirwy ond hefyd i garchariad hyd at saith mlynedd.

Gall unrhyw un a geir yn euog o'r tramgwyddau hyn gael ei (h)anghymhwyso hefyd rhag bod yn aelod am hyd at 15 mlynedd.

8. Beth os bydda i'n newid fy meddwl ac am dynnu fy nghais yn ôl?

Rhaid i'r aelodau dynodedig dynnu'r cais yn ôl drwy ddefnyddio Ffurflen LLP652c os paid partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig â bod yn gymwys i'w dileu o'r gofrestr. Gall hyn fod oherwydd bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig :

- yn masnachu neu'n gwneud busnes mewn ffordd arall;

- yn newid ei henw;

- yn cael gwared, am werth cyfatebol, ag unrhyw eiddo neu hawliau ar wahân i rai yr oedd eu hangen arni er mwyn gwneud neu fwrw ymlaen â'r cais (er enghraifft, gall partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fynd ymlaen â'r cais os bydd yn gwerthu teleffon a gedwid ganddi i ddelio ag ymholiadau ynglŷn â'i chais);

- yn dod yn destun gweithrediadau ansolfedd ffurfiol neu'n gwneud cais o dan Adran 425 (cyfaddawd neu drefniadau rhwng partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a'i chredydwyr);

- yn dilyn unrhyw weithgarwch arall, onid oedd hwnnw'n angenrheidiol neu'n gyfleus er mwyn: gwneud neu fwrw ymlaen â chais am ddileu o'r gofrestr; rhoi terfyn ar y materion hynny sydd heb eu bodloni oherwydd yr hyn a fuodd yn angenrheidiol neu'n gyfleus i wneud neu fwrw ymlaen â chais (megis talu costau rhedeg swyddfa tra'n cwblhau ei materion ac yna gwerthu'r swyddfa'n derfynol); neu gydymffurfio â gofynion statudol.

Gall unrhyw aelod dynodedig lenwi a llofnodi Ffurflen LLP652c. Rhaid anfon y ffurflen i Dŷ'r Cwmnïau.

9. Oes eisiau imi anfon ffi gyda Ffurflen 652a?

Mae ffi o £10 yn daladwy i fodloni cost darparu'r gwasanaeth. Nid ad-delir y ffi os caiff y cais ei wrthod neu ei dynnu'n ôl wedi ei gofrestru. Bydd ffi arall i'w thalu am gais newydd. Rhaid gwneud unrhyw sieciau'n daladwy i "Tŷ'r Cwmnïau", gan nodi rhif y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ar y cefn.

10. A gaiff unrhyw un wrthwynebu'r diddymu?

Caiff unrhyw fudwyr wrthwynebu.

11. Sut a pham y cân nhw wrthwynebu?

Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig a chael eu hanfon at y Cofrestrydd Cwmnïau, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol, megis copïau o anfonebau a all brofi bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn masnachu. Mae rhesymau dros wrthwynebu'n cynnwys:

- bod y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi torri unrhyw un o amodau ei chais (er enghraifft, ei bod wedi masnachu, newid ei henw neu fynd yn destun gweithrediadau ansolfedd) yn ystod y cyfnod o dri mis cyn y cais, neu wedyn;

- bod yr aelodau dynodedig heb roi gwybod i fudwyr;

- bod unrhyw un o ddatganiadau'r ffurflen heb fod yn wir;

- bod rhyw fath o gamau'n cael eu cymryd, neu yn yr arfaeth, i adennill unrhyw arian dyledus (er enghraifft, deiseb dirwyn i ben neu weithrediadau mewn llys mân hawliadau);

- bod gweithrediadau cyfreithiol eraill ar y gweill yn erbyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;

- bod yr aelodau dynodedig wedi masnachu ar gam, neu wedi cyflawni twyll treth neu ryw dramgwydd arall.

Pennod 8
Partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig sydd wedi darfod

1. A gaiff y Cofrestrydd ddileu enw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig o'r gofrestr?

Caiff, os nad yw'n dilyn busnes nac yn gweithredu. Gall y Cofrestrydd fod o'r farn hon, er enghraifft:

- os na chafodd gan y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ddogfennau y dylsid fod wedi eu hanfon ato; neu

- os buodd i eitemau a anfonodd drwy'r post i swyddfa gofrestredig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael eu dychwelyd heb eu dosbarthu.

Cyn i'r Cofrestrydd ddileu partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig o'r gofrestr, rhaid iddo holi a yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn dal i wneud busnes neu i weithredu. Os bydd yn fodlon nad yw, bydd yn cyhoeddi yn y London Gazette rybudd o'i fwriad i ddileu enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Rhoir copi o'r rhybudd ar gofnod cyhoeddus y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Os na wêl reswm dros wneud fel arall, bydd y Cofrestrydd yn dileu enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig heb fod yn llai na thri mis wedi dyddiad y rhybudd. Caiff y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei diddymu wrth gyhoeddi rhybudd pellach i'r perwyl hwnnw yn y Gazette. Ar ddyddiad y diddymu, bydd unrhyw asedion a ddelir gan bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a gafodd ei diddymu yn perthyn i'r Goron - gweler cwestiwn 5. Caiff cyfrif banc y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei rewi ac fe drosglwyddir unrhyw gredyd sydd yn y cyfrif i'r Goron.

2. Sut galla i osgoi'r camau hyn?

Os yw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i aros ar y gofrestr, mae'n bwysig ymateb yn brydlon i unrhyw lythyr ymholi ffurfiol oddi wrth Dŷ'r Cwmnïau , gan gyflwyno unrhyw ddogfennau dyledus. Gall methiant i gyflwyno'r dogfennau angenrheidiol hefyd arwain at erlyn yr aelodau dynodedig.

3. Ga' i wrthwynebu?

Bydd y Cofrestrydd yn cymryd i ystyriaeth sylwadau'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ac unrhyw fudwyr eraill megis credydwyr.

4. Sut bydd bwriad y Cofrestrydd i ddileu enw'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn ymddangos yn y London Gazette?

Mewn Atodiad i'r London Gazette ar gyfer Hysbysiadau Swyddogol ym maes y Gyfraith Gwmnïau, cyhoeddir rhybuddion wythnosol ar ffurf *microfiche.* Gellir cael copïau gan The London Gazette, PO Box 7923, London SE1 5ZH, gwefan: www.gazettes-online.co.uk, ffôn: 020 7394 4517

5. Beth sy'n digwydd i asedion partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a ddiddymwyd?

O ddyddiad y diddymu ymlaen, bydd unrhyw asedion a ddelir gan bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig a gafodd ei diddymu yn rhai *bona vacantia.* Mae hyn yn golygu eu bod yn perthyn i'r Goron. Caiff cyfrif banc y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei rewi ac fe drosglwyddir unrhyw gredyd sydd yn y cyfrif i'r Goron.

Dylai ymholiadau ynglŷn ag eiddo *bona vacantia* gael eu cyfeirio, fel a fo'n briodol, at:

Os yw swyddfa gofrestredig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn Swydd Gaerhirfryn:

The Solicitor to the Duchy of Lancaster
66 Lincoln's Inn Fields
London WC2A 3LH

Os yw swyddfa gofrestredig y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yng Nghernyw neu Ynysoedd Scilly:

The Solicitor to the Duchy of Cornwall
66 Lincoln's Inn Fields
London
WC2A 3LH

Ymhob achos arall:

The Treasury Solicitor (BV)
1 Kemble Street,
London WC2B 4TS.

www.bonavacantia.gov.uk

Pennod 9
Adfer i'r gofrestr

Ni all y Cofrestrydd adfer partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i'r gofrestr heb Orchymyn Llys. Pan gyflwynir i'r Cofrestrydd gopi swyddogol o Orchymyn y Llys i adfer, ystyrir bod partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi parhau mewn bodolaeth fel pe bai heb ei dileu a'i diddymu.

1. Pwy gaiff wneud cais am i enw partneriaeth atebobwydd cyfyngedig atebolrwydd cyfyngedig gael ei adfer i'r gofrestr?

I'r partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig hynny a ddilëir o'r gofrestr yn sgil cais Ffurflen LLP652a: o fewn 20 mlynedd i'r diddymu, gall unrhyw un o'r bobl hynny y mae'n rhaid rhoi gwybod iddyn nhw am y cais (gweler pennod 7, cwestiwn 4) wneud cais i'r Llys am i enw partneriaeth a ddiddymwyd cael ei adfer i'r gofrestr. Gall y Llys orchymyn ei adfer os bydd yn fodlon:

- na roddwyd i'r person gopi o gais y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ;
- bod cais y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn torri'r amodau ymgynnig; neu

- ei bod yn iawn gwneud felly am ryw reswm arall.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol yntau wneud cais i'r Llys am adfer yr enw os cyfiawnheir hynny er lles y cyhoedd.

I'r partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig hynny a ddilëir o'r gofrestr ar anogaeth y Cofrestrydd: gall y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, neu un o'i chredydwyr, wneud cais i'r Llys am ei hadfer o fewn 20 mlynedd i'r diddymu. Pan fydd partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn ceisio'i hadferiad ei hun, rhaid i aelod o'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig fod yn ymgeisydd hefyd er mwyn rhoi unrhyw ymrwymiadau angenrheidiol gerbron y Llys.

Lle diddymir partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig: gall y diddymydd neu unrhyw un arall sydd â buddiant megis credydydd, wneud cais i'r Llys am i'r diddymu cael ei ddatgan yn ddi-rym. Yn y mwyafrif o enghreifftiau, rhaid gwneud cais o fewn dwy flynedd i'r diddymu, ond gellir ymgynnig unrhyw adeg os diben y cais yw dwyn achos yn erbyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig am:

- ddigolledi ad ar gyfer anafiadau personol, gan gynnwys unrhyw swm yn rhinwedd Adran 1(2)(c) o Ddeddf Diwygio'r Gyfraith (Darpariaethau Amrywiol) 1934 (treuliau angladd); neu

- ddigolledi ad o dan Ddeddf Damweiniau Angheuol 1976 neu Ddeddf Digolledi ad (Yr Alban) 1976.

2. I ba lys y gwna i gais am Orchymyn Adfer?

Gwnewch gais i'r Uchel Lys drwy lenwi ffurflen hawlio o dan Ran 8 (dyma'r ffurflen safonol sy'n rhoi cychwyn i weithrediadau. Gellir ei dadlwytho o www.courtservice.gov.uk). Fel arfer, bydd Cofrestrydd Llys y Cwmnïau yn Llundain yn gwrando achosion adfer yn ei siambrau unwaith yr wythnos ar brynhawn Gwener. Gwrandewir achosion hefyd mewn Cofrestrfeydd Dosbarth. Fel arall, gellir gwneud cais i Lys Sirol sydd â'r awdurdod i ddirwyn y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig i ben. Am ganllaw mwy manwl ynghylch adfer, gweler 'Treasury Solicitor: A Guide to Company Restoration' sydd ar gael gan www.tsol.gov.uk neu ffoniwch 020 7210 3000.

3. Sut dylwn i gyflwyno dogfennau?

Dylid cyflwyno'r ffurflen hawlio i'r:

- cyfreithiwr sy'n delio ag unrhyw asedion *bona vacantia,* sef Cyfreithiwr y Trysorlys neu gyfreithiwr y Ddugiaeth berthnasol, a'r

Cofrestrydd Cwmnïau
Tîm Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ

Ffôn: 029 2038 0744

DX: 33050 Caerdydd 1

Bydd Tŷ'r Cwmnïau'n derbyn trosglwyddo drwy'r post (argymhellir dosbarthiad wedi ei gofnodi). Bydd hefyd yn derbyn trosglwyddo â llaw i Dŷ'r Cwmnïau, Caerdydd, neu Dŷ'r Cwmnïau, Bloomsbury Street, Llundain, yn ystod neu'r tu allan i oriau swyddfa arferol. Bydd ar y Cofrestrydd angen hefyd gopi o'r affidafid neu ddatganiad y tyst i gefnogi'r cais.

Rhaid rhoi i'r Cofrestrydd rybudd 10 diwrnod, fan leiaf, cyn y gwrandawiad fel y caiff amser i gyfarwyddo Cyfreithiwr y Trysorlys a delio â'r mater.

4. Pa dystiolaeth y mae'n rhaid imi ei rhoi?

Bydd ar y Llys angen affidafid (datganiad o'r gwirionedd) neu ddatganiad tyst yn cadarnhau:

- i'r ddogfen gychwynnol gael ei chyflwyno; ac
- nad oes gan y cyfreithiwr sy'n delio â'r asedion *bona vacantia* unrhyw wrthwynebiad i adfer y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (dylid atodi copi o'i (l)lythyr wrth yr affidafid neu ddatganiad y tyst).

Dylai'r affidafid neu ddatganiad y tyst ymdrin hefyd â'r canlynol, fel a fo'n briodol i'r cais:-

- pa bryd y cafodd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig ei chorffori, ynghyd â natur ei hamcanion (dylid atodi copi o'r dystysgrif gorffori ac o'r ddogfen gorffori);
- ei swyddogion;
- ei gweithgarwch masnachu a, lle bo hynny'n gymwys, pryd y rhoes heibio i fasnachu;
- esboniad o unrhyw fethiant i gyflwyno cyfrifon, ffurflenni blynyddol neu hysbysiadau i'r Cofrestrydd Cwmnïau;
- manylion am y dileu o'r gofrestr a'r diddymu;
- sylwadau ynglŷn â hydaledd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig;
- unrhyw wybodaeth arall sy'n egluro'r rheswm dros y cais.

Bydd y Cofrestrydd yn darparu gwybodaeth i gynorthwyo gwneud cais i'r Llys. Cyn y gwrandawiad Llys, bydd fel arfer yn gofyn am:

- i unrhyw ddogfennau statudol y mae eu hangen i ddiweddaru ffeil gyhoeddus y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael eu cyflwyno. Dylid anfon y rhain at y Cofrestrydd o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad fel y caiff amser i'w prosesu a'u harchwilio, gan y gall fod angen eu dychwelyd i gael eu diwygio;

- i unrhyw afreoleidd-dra yn fframwaith y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gael ei unioni.

5. Oes yna gostau neu gosbau?

Oes. Caiff y Cofrestrydd ei gynrychioli gan Gyfreithiwr y Trysorlys, y bodlonir ei gostau fel rheol gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr. Yn arferol, bydd yn rhaid i'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig dalu unrhyw gosbau statudol sifil am ffeilio hwyr yng nghyswllt cyfrifon a gyflwynir i'r Cofrestrydd y tu allan i'r cyfnod a ganiateir o dan Ddeddf Cwmnïau 1985 (fel y cymhwysir honno at bartneriaethau atebolrwydd cyfyngedig gan reoliad 3 o Reoliadau Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig 2001). Y cosbau a all fod yn ddyledus yw:

- cosbau na fodlonwyd yng nghyswllt cyfrifon a gafodd eu cyflwyno'n hwyr cyn diddymu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig; a

- chosbau sy'n ddyledus yng nghyswllt cyfrifon a gafodd eu cyflwyno adeg yr adfer, os oedd y cyfrifon yn orddyledus ar ddyddiad diddymu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

Bydd lefel unrhyw gosb ffeilio hwyr yn dibynnu ar ba mor hwyr y mae'r cyfrifon wrth iddyn nhw ddod i law yn Nŷ'r Cwmnïau. Yn achos cyfrifon a gaiff eu cyflwyno adeg yr adfer, fe anwybyddir fel arfer y cyfnod pan oedd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi ei diddymu. Er enghraifft, caiff set o gyfrifon y dylsid fod wedi eu cyflwyno dau fis cyn diddymu partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig eu hystyried dau fis yn hwyr fel arfer os cân nhw eu cyflwyno adeg yr adfer

Fel arfer, ni chesglir cosbau ffeilio hwyr yng nghyswllt cyfrifon a ddaeth yn ddyledus pan oedd y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi ei diddymu ond a dderbyniwyd pan gafodd ei hadfer.

Mae rhagor o wybodaeth ynghylch cosbau ffeilio hwyr ar gael yn ein llyfryn "Cosbau Ffeilio Hwyr" sydd ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau..

6. Beth sy'n digwydd pan wneir y gorchymyn adfer?

Rhaid i gopi swyddogol o'r gorchymyn, gyda sêl y Llys, gael ei gyflwyno i'r Cofrestrydd gan yr ymgeisydd sydd am adfer y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Ystyrir bod partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi ei hadfer pan gyflwynir y gorchymyn.

Pennod 10
Gwybodaeth bellach

1. Ble galla i fynd i gael cymorth?

Bydd staff Tŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd yn gallu'ch cynghori ar faterion cyffredinol, ond os ydych chi'n ystyried gweithrediadau ymddatod neu ansolfedd, dylech geisio cyngor ymarferydd ansolfedd neu'r Gwasanaeth Ansolfedd llinell ymholiadau 0845 602 9848.

Dylai cwynion ynglŷn ag ymddygiad ymarferydd ansolfedd trwyddedig gael eu cyfeirio, yn ysgrifenedig, i:

The Insolvency Practioners' Section
The Insolvency Service
Area 1.10
PO Box 203
21 Bloomsbury Street
London WC1B 3QW

Wedyn, byddan nhw'n anfon y gŵyn ymlaen i'r corff awdurdodi ymarferwyr.

2. Sut dylwn i anfon ffurflenni i Dŷ'r Cwmnïau?

- Dylai dogfennau, gan gynnwys gorchmynion llys, ddangos enw a rhif cofrestru cywir y bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig.

- Dylech chi ddarparu dogfennau ar ddiwyg portread (hynny yw, â'r ymyl byrraf ar y brig).

3. Sut dylwn i anfon gwybodaeth i Dŷ'r Cwmnïau?

Gallwch chi gyflwyno dogfennau i Dŷ'r Cwmnïau â llaw (yn bersonol neu drwy negesydd), gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, dros wyliau banc a thros y penwythnos yng Nghaerdydd, Llundain a Chaeredin..

Gallwch chi hefyd gyflwyno dogfennau drwy'r post, drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) neu drwy'r Post Cyfreithiol (LP) yn yr Alban. Os anfonwch chi ddogfennau, byddwch cystal â'u cyfeirio at:

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu corffori yng Nghymru a Lloegr:

Y Cofrestrydd Cwmnïau
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd CF14 3UZ
neu
DX33050 Caerdydd 1

Ar gyfer partneriaethau atebolrwydd cyfyngedig wedi eu cofrestru yn yr Alban:

The Registrar of Companies
Companies House
4th Floor
Edinburgh Quay 2
139 Fountainbridge
Edinburgh EH3 9FF
neu
DX ED235 Edinburgh 1
neu
LP – 4 Edinburgh 2

Os ydych yn anfon dogfennau drwy'r post, drwy negesydd neu drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) a'ch bod yn dymuno cael derbynneb, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn rhoi nodyn cydnabod os amgaewch chi gopi o'ch llythyr eglurhaol gydag amlen stampiedig ac arni eich cyfeiriad dychwelyd. Bydd y côd bar a roddwn ar eich llythyr yn cyfleu'r dyddiad dod i law ac fe ddychwelwn y copi yn yr amlen a ddarparwch chi.

Sylwer: nid yw cydnabyddiaeth dod i law yn golygu bod dogfen wedi ei derbyn i'w chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Sylwer: Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn cyfrifon na dogfennau statudol eraill dros beiriant ffacs.

4 Ble galla i gael ffurflenni a chanllaw?

Mae hwn yn un o gyfres o ganllaw gan Dŷ'r Cwmnïau sy'n rhoi canllaw syml i'r Ddeddf Cwmnïau.

Mae ffurflenni statudol a chanllaw ar gael, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf i'w cael yw drwy ein gwefan neu drwy ffonio 0303 1234 500.

Gellir hefyd gael ffurflenni gan ddogfenwyr cyfraith cwmnïau, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantiaid ffurfio cwmnïau – cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

sut i gysylltu â ni

Canolfan Cysylltu: 0303 1234 500*
Mini-com: 029 2038 1245
enquries@companieshouse.gov.uk
www.companieshouse.gov.uk
*Er dibenion hyfforddi a sicrhau ansawdd,
fe allai eich galwad gael ei monitro

Caerdydd
Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron, Caerdydd CF14 3UZ
Ffacs: 029 2038 0900

Caeredin
Companies House
4th Floor
Edinburgh Quay 2
139 Fountainbridge
Edinburgh EH3 9FF
Ffacs: 0131 535 5820

Llundain
Companies House
21 Bloomsbury Street, London WC1B 3XD
Ffacs: 029 2038 0900